# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 3

RHYDDHAD RHAG TRETH

### 30 Gwaith adfer safle: y weithdrefn wrth wneud cais am gymeradwyaeth

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig wedi gwneud cais i ACC am gymeradwyaeth i gyflawni gwaith adfer.

(2) Caiff ACC ofyn drwy hysbysiad am ragor o wybodaeth gan y gweithredwr at ddiben penderfynu a ddylid rhoi cymeradwyaeth ai peidio neu o dan ba delerau y dylid ei rhoi.

(3) Rhaid i hysbysiad am gais am ragor o wybodaeth—

(a) cael ei ddyroddi o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn cael y cais am gymeradwyaeth, a

(b) pennu o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth bellach, y mae'n rhaid iddo fod yn 30 o ddiwrnodau o leiaf gan ddechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad am y cais.

(4) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr am ei benderfyniad ar y cais am gymeradwyaeth o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau—

(a) os nad yw ACC yn gwneud cais am ragor o wybodaeth, â'r diwrnod y mae ACC yn cael y cais am gymeradwyaeth, neu

(b) os yw ACC yn gwneud cais am ragor o wybodaeth, â'r cynharaf o'r canlynol—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 30. (See end of Document for details)*

(i) y diwrnod y mae ACC yn cael yr wybodaeth, a

(ii) y diwrnod y mae'r cyfnod ar gyfer darparu'r wybodaeth yn dod i ben.

(5) Os yw ACC yn cymeradwyo'r cais, rhaid i'r hysbysiad nodi manylion y gymeradwyaeth.

(6) Caiff ACC a gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig gytuno i ymestyn cyfnod a bennir gan yr adran hon neu oddi tani.

(7) Os yw'r cyfnod a bennir yn is-adran (4) (gan gynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod y cytunir iddo o dan is-adran (6)) yn dod i ben heb i ACC fod wedi dyroddi hysbysiad am ei benderfyniad, mae ACC i'w drin fel pe bai wedi cymeradwyo cyflawni gwaith adfer fel y'i disgrifir yn y cais (gan gynnwys unrhyw ran o'r gwaith a gyflawnwyd rhwng yr adeg y gwnaed y cais a'r adeg y daeth y cyfnod hwnnw i ben).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 30 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 30 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 30.